



Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020

Gorffennaf 2020

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Gwariant	14

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol ac yn hawdd i'w ddarllen.

Ein nod yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn gweithio er budd pawb yng Nghymru sy'n cyflwyno ceisiadau neu atgyfeiriadau sy'n dod o dan ein hawdurdodaeth, drwy ddelio â cheisiadau neu atgyfeiriadau o'r fath yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn unol â chanllawiau arferion gorau a statudol.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Tribiwnlys, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys.

Mrs Carolyn Kirby OBE

Llywydd

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Sail Sefydlu'r Tribiwnlys
- Swyddogaeth y Tribiwnlys
- Rheolau'r Tribiwnlys
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Arfarnu
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Defnyddio'r Tribiwnlys

Sail Sefydlu'r Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gorff barnwrol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959, ac sy'n gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd). Y Tribiwnlys sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau ac atgyfeiriadau yn ymwneud â chleifion sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, cleifion sydd wedi cael gorchymyn triniaeth gymunedol, gorchymyn gwarcheidiaeth, a chleifion sy'n cael eu rhyddhau'n amodol o'r ysbyty.

Mae'r Tribiwnlys yn gorff barnwrol sy'n annibynnol ar y llywodraeth, a chaiff ei aelodau eu penodi gan yr Arglwydd Ganghellor.

Swyddogaeth y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnig gwarchodaeth sylweddol i gleifion y cyfyngwyd ar eu rhyddid o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. O ran profi'r achos, mater i'r rhai sy'n credu y dylai claf barhau i gael ei gadw yn yr ysbyty neu barhau i gael triniaeth gymunedol o dan oruchwyliaeth yw profi hynny - nid mater i'r claf yw ei wrthbrofi. Felly, mae angen iddynt gyflwyno tystiolaeth ddigonol i'r Tribiwnlys i gefnogi eu hachos. Adroddiadau cymdeithasol a chlinigol yw asgwrn cefn y dystiolaeth hon a chaiff y rhain eu trafod ar lafar mewn gwrandawiadau, a'r claf yn bresennol. Mae'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wedi'u pennu'n glir yn Rheolau'r Tribiwnlys 2008.

Rheolau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau a nodwyd yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl 2008:

www.mentalhealthlaw.co.uk/Mental_Health_Review_Tribunal_for_Wales_Rules_2008

Diben Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl 2008 yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn delio â phob achos a glywir ganddo yn deg, yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn gyflym. Mae'r Rheolau yn mynnu bod y Tribiwnlys yn sicrhau, cyn belled â phosibl, bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn yn yr achos.

Mae ceisiadau ac atgyfeiriadau i'r Tribiwnlys yn perthyn yn fras i dri chategori:

Cleifion dan gyfyngiadau – troseddwy'r ag anhwylder meddwl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty er mwyn cael triniaeth, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gosod rheolaethau arbennig ar eu cyfer oherwydd lefel eu risg. Mae'n bosibl y byddant yn cael eu rhyddhau'n amodol maes o law, fel rhan o'r broses raddol o ailymuno â'r gymuned. Mae gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau cleifion dan gyfyngiad yn ddiamod ac yn amodol, yn ogystal ag amrywio'r amodau a osodir arnynt.

Cleifion nad ydynt o dan gyfyngiadau – cleifion nad ydynt yn droseddwy'r ac sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty, o dan Adran 2 neu Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Maent yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu raddfa sy'n golygu bod angen iddynt gael eu cadw yn yr ysbyty. Caiff Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei defnyddio pan fydd angen asesiad, neu asesiad wedi'i ddilyn gan driniaeth feddygol, am gyfnod penodol o leiaf, a chaiff Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei defnyddio pan fydd angen triniaeth. Gwaith y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau cadw'r claf yn yr ysbyty yn dal i gael eu bodloni ar adeg y gwrandawriad.

Cleifion cymunedol – nid yw'r cleifion yma yn cael eu cadw yn yr ysbyty, ond mae'n bosib eu bod wedi cael Gorchymyn Triniaeth Gymunedol neu orchymyn gwarcheidiaeth. Gwaith y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau'r gorchymynion hyn yn dal i gael eu bodloni ar adeg y gwrandawriad.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a holl aelodau'r Tribiwnlys. Caiff penodiadau eu gwneud ar ôl hysbysebu swyddi gwag, ac ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gynnal proses gyfweld gystadleuol.



Rôl yr aelod cyfreithiol – Rôl yr aelod cyfreithiol yw llywyddu (h.y. cadeirio) mewn gwrandawladau tribiwnlys. Mae ei gyfrifoldebau hefyd yn cynnwys gwneud yn siŵr bod achosion yn cael eu cynnal yn deg a bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu dilyn yn briodol, a rhoi cyngor ar unrhyw gwestiynau cyfreithiol sy'n codi. Mae'r aelod cyfreithiol hefyd yn gyfrifol, ar ôl ymgynghori ag aelodau eraill y Tribiwnlys, am ddrafftio'r rhesymau dros y penderfyniad ac am lofnodi'r cofnod o'r penderfyniad. Disgwylir i'r aelodau cyfreithiol fod â 'phrofiad cyfreithiol y mae'r Arglwydd Ganghellor yn ei ystyried yn briodol'.

Rôl yr aelod meddygol – Mae gan aelod meddygol y tribiwnlys rôl ddeuol i'w chyflawni. Mae Rheolau'r Tribiwnlys yn mynnu ei fod yn gwneud archwiliad o'r claf cyn y gwrandawriad, ac yn cymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried eu bod yn briodol er mwyn llunio barn ynghylch cyflwr meddyliol y claf. Yn ystod y gwrandawriad bydd gan yr aelod meddygol, ynghyd â'r aelodau eraill, gyfrifoldeb barnwrol i benderfynu ar ganlyniad y gwrandawriad. Yn ddiethriad, mae aelod meddygol y tribiwnlys yn seiciatrydd ymgynghorol â blynyddoedd lawer o brofiad. Bydd yn gallu cynghori aelodau eraill y Tribiwnlys ar unrhyw faterion meddygol.

Rôl yr aelod lleyg – Nid yw'r aelod lleyg yn gyfreithiwr nac yn seiciatrydd, ond mae'n cynnig gwybodaeth a phrofiad gwahanol sy'n berthnasol i awdurdodaeth y Tribiwnlys. Gall yr aelod lleyg gyfrannu gwybodaeth ynghylch salwch meddwl, gwasanaethau cymdeithasol neu iechyd meddwl, hawliau cleifion a materion cymunedol at y broses o ystyried achos y claf.

Yr Ysgrifenyddiaeth – Yr ysgrifenyddiaeth sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd. Mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau ac atgyfeiriadau i'r Tribiwnlys. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd neu'r dirprwyon ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau cychwynnol cyn y gwrandawriad, a bydd yn rhoi gwybod i'r partion yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer holl aelodau a defnyddwyr y Tribiwnlys. Bydd aelodau o'r ysgrifenyddiaeth yn bresennol mewn rhai gwrandawladau er mwyn helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.

Penodiadau

Ni phenodwyd unrhyw aelodau newydd i'r panel yn 2019 – 2020; fodd bynnag, cafodd cynllun ei lansio i benodi aelodau cyfreithiol presennol Tribiwnlysoedd yn aelodau o Dribiwnlysoedd eraill Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Cafodd dau benodiad o'r fath eu gwneud o blith aelodau'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Lansiwyd dau gynllun i recriwtio aelodau cyfreithiol a lleyg yn 2020: y cynllun aelodau cyfreithiol ym mis Chwefror a'r cynllun aelodau lleyg ym mis Mawrth, gan fwriadu penodi cyn diwedd yr haf. Ond, oherwydd y pandemig Covid-19 byd-eang, gohiriwyd y prosesau recriwtio hyn ar ôl y cam sifftio, hyd nes y gellir gwneud trefniadau addas pellach i barhau â'r prosesau recriwtio.

Hyfforddiant

I sicrhau bod y Tribiwnlys yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, mae'n bwysig bod yr holl aelodau wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes ymarfer a chyfraith iechyd meddwl.

Mae'r Panel yn gwbl ymrwymedig i'r broses hon a chynhaliwyd y Gynhadledd Flynyddol i'r holl aelodau ym mis Tachwedd 2019 yng Ngwesty'r Copthorne, Caerdydd. Roedd y gynhadledd yn cynnwys cyflwyniad i'r Cyfarwyddyd Ymarfer (sydd ar gael o dan adran Rheoliadau ein gwefan). Mae hwn yn rhoi cyfarwyddiadau manwl pellach ar sut y dylid cyflwyno adroddiadau i'r Panel fel tystiolaeth ar gyfer achosion tribiwnlys. Rhoddodd y barnwr Leslie Cuthbert gyflwyniad i'r aelodau ar dueddiadau gwybyddol wrth farnu. Rhoddodd Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyflwyniad ar Dribiwnlysoedd Cymru a'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, gan sôn am yr adolygiad diweddar o'r system gyfiawnder yng Nghymru a sut y bydd yn effeithio ar y Tribiwnlysoedd yn eu cyfanrwydd. Yn y prynhawn, cafwyd sesiwn holi ac ateb gyda Mr Mark Powell, CF, yn y gadair, i drafod y pynciau a godwyd yn y gynhadledd yn ystod y diwrnod.

Roedd cyfres o weithdai gwanwyn wedi'u cynllunio ar gyfer Chwefror/Mawrth 2020. Oherwydd y newidiadau a ddisgwyllir cyn hir i'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gohiriwyd y gweithdai tan haf 2020.

Arfarnu

Parhaodd aelodau'r Tribiwnlys i gael eu harfarnu yn ystod 2019 – 2020, yn unol â'r cynllun i arfarnu pob aelod bob tair blynedd.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Blwch Post 1143

Caerdydd

CF11 1WX

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 03000255328

E-bost y Tribiwnlys: mhrt@llyw.cymru

Gwefan: www.tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru

Defnyddio'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn hapus i gyfathrebu â defnyddwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, byddwn yn trefnu bod un yn cysylltu â'r defnyddiwr cyn gynted â phosib.

Gall cleifion ddewis cael gwrandawriad tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gellir trefnu bod cyfieithydd ar gyfer yr iaith dan sylw yn bresennol yn y gwrandawriad. Os bydd angen i ddehonglydd iaith arwyddion fod yn bresennol yn y gwrandawriad, gallwn drefnu hynny hefyd.

Os oes gan unrhyw un a fydd yn y gwrandawriad unrhyw ofynion mynediad a allai effeithio ar drefniadau'r gwrandawriad, byddwn yn darparu ar gyfer hynny. Er mwyn gallu trefnu i gael cyfieithwyr neu ddehonglwyr, neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac Ystadegau
- Apeliadau
- Cwynion
- Targedau Arferion Gorau a Thargedau Statudol

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn tribiwnlys yn rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth.

Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd

Nifer y ffeiliau achos sy'n deillio o'r ceisiadau a'r atgyfeiriadau hyn

Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd

Nifer y ffeiliau achos a gwblhawyd yn y gwrandawriad cyntaf

Nifer y ffeiliau achos na aeth ymlaen i wrandawriad a'r rhesymau dros hynny

Y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd, a'u ffeiliau achos

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 cafodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 1,942 o geisiadau neu atgyfeiriadau ar gyfer ar gyfer gwrandawriad Tribiwnlys.

Gall cais neu atgyfeiriad arwain at drefnu nifer o wrandawiadau, gan y gellir gohirio neu ohirio'r un cais am amryw o resymau ac ar fwy nag un achlysur. Felly bydd nifer o ffeiliau achos gwahanol yn cael eu creu.

Caiff ffeil achos ei chreu ar gyfer pob cais neu atgyfeiriad a dderbynnir, felly mae'n bosibl y bydd sawl ffeil achos yn cael ei chreu ar gyfer claf yn ystod ei gyfnod cadw. Bob tro y pennir gwrandawriad ac nad yw'n dod i gasgliad, caiff ffeil achos newydd ei chreu ar gyfer yr un cais neu atgyfeiriad. Er enghraifft, mae John Jones yn gwneud cais ac mae ffeil achos yn cael ei chreu ar ei gyfer. Mae'r gwrandawriad cyntaf wedi'i drefnu ond caiff ei ohirio, felly mae'r ffeil achos gyntaf yn cael ei chau ac un arall yn cael ei hagor er mwyn i wrandawriad newydd gael ei drefnu. Mae hyn yn galluogi'r Tribiwnlys i gofnodi ffigurau ac ystadegau ynghylch achosion yn fanylach.

Mae'n werth nodi hefyd na fydd pob ffeil achos a grëwyd o'r ceisiadau a dderbyniwyd wedi symud ymlaen i gam lle mae gwrandawriad wedi'i drefnu.

O blith y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, crëwyd 2,286 o achosion.

Ni chafodd pob un o'r ffeiliau achos hynny eu cau erbyn 31 Mawrth 2020. Mae 33 o achosion i'w clywed o hyd yn y flwyddyn ariannol nesaf (1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021).

Yr holl ffeiliau achos a grëwyd a'u canlyniad

Mae'r tabl isod yn dangos yr holl achosion a grëwyd o geisiadau/atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn 2019 – 2020, a chanlyniad yr achosion hynny.

Os na chynhwyswyd esboniad o'r statws isod, gellir ei weld ar ein gwefan drwy'r ddolen ganlynol: <https://mentalhealthreviewtribunal.gov.wales/sites/mentalhealthreview/files/2019-06/mhrtw-16-list-of-words-cy.pdf>

Canlyniad yr achos	Nifer yr achosion
Rhyddhad diamod	6
Gohiriedig	120
Rhyddhau'n amodol	21
Wedi marw (y claf wedi marw cyn y gellid bwrw ymlaen â'r achos)	7
Rhyddhad amodol gohiriedig	4
Rhyddhad gohiriedig	21
Rhyddhau	39
Anffurfiol (y claf wedi'i ryddhau gan yr awdurdod cadw)	581
Heb ei ryddhau	768
Agored (yr achos heb ei glywed)	33
Wedi'i ohirio	237
Y cais yn anghymwys (y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn anghywir i'r Tribiwnlys)	41
Wedi'i drosglwyddo o'r ardal (y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn i'r achos gyrraedd gwrandawriad)	15
Wedi'i dynnu'n ôl (y claf wedi tynnu'r achos yn ôl)	282
Wed'i dynnu'n ôl ar y diwrnod (y claf wedi tynnu'r cais yn ôl ar ddiwrnod y gwrandawriad)	11
Cyfanswm	2286

Ceisiadau ac atgyfeiriadau a dderbyniwyd ond na threfnwyd gwrandawriad ar eu cyfer, a'r rhesymau

Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r ceisiadau neu atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn 2019 – 2020 ond na threfnwyd gwrandawriad ar eu cyfer. Nodir y rhesymau isod, gydag esboniad byr.

Mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyffredinol uchod.

Rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â gwrandawriad	Nifer yr achosion
Wedi marw (y claf wedi marw)	1
Anffurfiol (y claf wedi'i ryddhau gan yr awdurdod cadw)	84
Y cais yn anghymwys (y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn anghywir i'r Tribiwnlys)	31
Wedi'i drosglwyddo o'r ardal (y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn i'r achos gyrraedd gwrandawriad)	77
Wedi'i dynnu'n ôl (y claf wedi tynnu'r achos yn ôl)	26
Cyfanswm	149

Gwrandawiadau a drefnwyd

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, trefnwyd cyfanswm o 2,214 o wrandawiadau. Nid yw'r gwrandawiadau a drefnwyd ar gyfer 2019 – 2020 i gyd yn deillio o geisiadau ac atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod yr un flwyddyn; felly adroddir arnynt ar wahân.

Gwrandawiadau a drefnwyd ac a aeth ymlaen at ganlyniad

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gwrandawiadau a gynhaliwyd yn 2019 – 2020 a aeth ymlaen at ganlyniad. At ddibenion yr adroddiad hwn, cymerir bod canlyniad yn golygu bod y claf wedi cael ei ryddhau neu heb gael ei ryddhau (neu amrywiadau ar hynny), neu ei fod wedi tynnu ei gais yn ôl yn ystod y gwrandawriad.

Mis	O dan gyfyngiad	Cymunedol	Nid o dan gyfyngiad	Cyfanswm (mis)
Ebrill	13	11	72	96
Mai	14	7	68	89
Mehefin	12	10	53	75
Gorffennaf	12	4	78	94
Awst	10	9	72	91
Medi	9	7	66	82
Hydref	6	9	73	88
Tachwedd	8	5	59	72

Mis	O dan gyfyngiad	Cymunedol	Nid o dan gyfyngiad	Cyfanswm (mis)
Rhagfyr	10	6	66	82
Ionawr	24	9	81	114
Chwefror	10	9	61	80
Mawrth	6	8	49	63
Cyfanswm (Blwyddyn)	134	94	798	1026

O'r gwrandawiadau uchod, arweiniodd 107 at ryddhau.

Arweiniodd 801 o wrandawiadau at beidio â rhyddhau'r claf.

Cafodd 118 o geisiadau eu tynnu'n ôl ar y diwrnod ar gais y claf.

O'r gwrandawiadau anghyfyngedig a gynhaliwyd, roedd 287 yn geisiadau adran 2 neu'n atgyfeiriadau gan Weinidogion Cymru.

Ceisiadau ac atgyfeiriadau a gwblhawyd yn y gwrandawriad cyntaf

Cyfanswm nifer yr achosion a aeth ymlaen i ganlyniad yn y gwrandawriad cyntaf oedd 822.

Gwrandawiadau a drefnwyd ond nad aethant ymlaen i wrandawriad, a'r rhesymau

Mae'r tabl isod yn dangos y gwrandawiadau y trefnwyd i'w clywed ond nad aethant ymlaen i wrandawriad, am y rhesymau amrywiol isod.

Byddai pob un o'r achosion a ohiriwyd isod wedi cael eu haildrefnu a'u clywed yn ddiweddarach.

Rhesymau dros beidio bwrw ymlaen â gwrandawriad	Nifer yr achosion
Anffurfiol (y claf wedi'i ryddhau gan yr awdurdod cadw cyn i wrandawriad fynd rhagddo)	526
Tynnwyd yn ôl (y cais wedi'i dynnu'n ôl gan y claf cyn i wrandawriad fynd rhagddo)	246
Wedi marw (y claf wedi marw cyn i wrandawriad fynd rhagddo)	4
Gohirio (y cais neu'r atgyfeiriad wedi'i ohirio cyn i wrandawriad fynd rhagddo)	250
Y cais yn anghymwys (y cais neu'r atgyfeiriad wedi'i wneud yn anghywir i'r Tribiwnlys)	11
Wedi'i drosglwyddo o'r ardal (y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn i wrandawriad fynd rhagddo)	7
Cyfanswm	1044

Yn ogystal â'r tablau uchod, gohiriwyd 130 o wrandawiadau (i'w clywed yn ddiweddarach), cyn symud ymlaen at benderfyniad terfynol. Arweiniodd 14 o wrandawiadau at ryddhad amodol wedi'i ohirio, gyda rhyddhad amodol wedyn yn cael ei ganiatáu ar ddyddiad diweddarach.

Apeliadau

Nid oes darpariaeth statudol i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad – dim ond penderfynu a ddylid caniatáu apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Gall partïon ofyn am ganiatâd gan y Llywydd i gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan y tribiwnlys ar sail gwall cyfreithiol. Os bydd y Llywydd yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio, gellir cyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn uniongyrchol am ganiatâd i apelio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyflwynwyd chwe chais i'r Cadeirydd i gael caniatâd i gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys a chafodd un ohonynt ei gymeradwyo. Tynnwyd un apêl yn ôl yn ddiweddarach.

Cwynion

Cafodd y Tribiwnlys ddwy gŵyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Deliodd y Llywydd â'r ddwy gŵyn yn unol â pholisi cwynion y Tribiwnlys ac ni chawsant eu derbyn.

Targedau Arferion Gorau a Thargedau Statudol

Mae gan y Tribiwnlys bedwar dyddiad terfyn statudol y mae'n rhaid iddo eu bodloni.

Rhestru achosion adran 2 o fewn saith diwrnod o'u derbyn.

Rhaid i bob cais adran 2 neu atgyfeiriadau a dderbynnir gael eu rhestru o fewn saith diwrnod o'r dyddiad derbyn. Os caiff y gwrandawriad ei ohirio cyn neu ar ôl cychwyn, caiff y dyddiad rhestru statudol ei godi; fodd bynnag rhaid cynnal gwrandawriad ar yr achos cyn i'r adran ddod i ben. Os yw'r dyddiad terfyn ar ŵyl y Banc, y diwrnod gwaith nesaf fydd y dyddiad terfyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff unrhyw barti mewn gwrandawriad Tribiwnlys wneud cais i estyn dyddiad rhestru gwrandawriad adran 2. Rhaid iddynt gyflwyno rhesymau digonol dros y cais, a bydd y Llywydd neu un o'r Dirprwyon yn ystyried y cais hwnnw. Os cytunir ar y rhesymau, caiff y gwrandawriad ei restru ar yr wythfed diwrnod ar ôl derbyn y cais/atgyfeiriad.

Cafwyd 269 o atgyfeiriadau/ceisiadau adran 2 ac fe'i rhestrwyd ar gyfer y gwrandawriad cyntaf.

Cafodd 252 eu rhestru o fewn yr amserlen statudol.

Cafodd 2 o'r gwrandawriadau eu rhestru ar yr wythfed diwrnod oherwydd Gŵyl Banc.

Cafodd 15 o'r gwrandawriadau eu rhestru ar yr wythfed diwrnod neu wedi hynny gyda chaniatâd y Llywydd neu'r Dirprwyon.

Rhestru achosion dan gyfyngiad a gyfeiriwyd sydd wedi'u galw'n ôl rhwng 5 ac 8 wythnos

Rhaid i bob Atgyfeiriad Galw'n Ôl y Weinyddiaeth Gyfiawnder gael eu rhestru o fewn pump i wyth wythnos o'r dyddiad derbyn. Os caiff y gwrandawriad ei ohirio cyn neu ar ôl cychwyn, caiff y dyddiad rhestru statudol ei godi. Os yw'r dyddiad terfyn ar gyfer rhestru ar Wyl y Banc, y diwrnod gwaith nesaf fydd y diwrnod olaf sy'n bosibl.

Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff unrhyw barti yng ngwrandawriad y Tribiwnlys wneud cais i estyn dyddiad rhestru Atgyfeiriad Galw'n Ôl. Rhaid iddynt gyflwyno rhesymau digonol dros y cais, a bydd y Llywydd neu un o'r Dirprwyon yn ystyried y cais hwnnw. Os cytunir ar y rhesymau, caiff y gwrandawriad ei restru ar y dyddiad nesaf sydd ar gael.

Dim ond aelod o'r Panel Cleifion dan Gyfyngiadau a gaiff gadeirio gwrandawriad am Atgyfeiriad Galw'n Ôl. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd aelod o'r Panel hwnnw ar gael i gadeirio'r cyfarfod o fewn yr amserlen statudol. Os nad oes modd sicrhau i aelod o'r Panel fod ar gael, bydd modd rhestru'r gwrandawriad ar ôl y dyddiad terfyn.

Cafwyd 17 o Atgyfeiriadau Galw'n ôl y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac fe'u rhestrwyd ar gyfer y gwrandawriad cyntaf.

Cafodd 11 eu rhestru o fewn yr amserlen statudol.

Anfon penderfyniadau adran 2 o fewn tri diwrnod gwaith

Anfonwyd 84% o'r penderfyniadau adran 2 o fewn tri diwrnod gwaith.

O'r 16% o benderfyniadau a anfonwyd y tu hwnt i'r amserlen, roedd 13% ohonynt wedi dod i law yn hwyrach na'r dyddiad terfyn. Roedd y 3% arall wedi dod i law mewn da bryd, ond cawsant eu hanfon o leiaf un diwrnod ar ôl y dyddiad terfyn.

Anfon pob penderfyniad arall o fewn saith diwrnod calendr

Anfonwyd 89% o holl benderfyniadau'r adrannau eraill o fewn saith diwrnod calendr.

O'r 11% o benderfyniadau a anfonwyd y tu hwnt i'r amserlen, roedd 6% ohonynt wedi'u derbyn yn hwyrach na'r dyddiad terfyn. Roedd y 5% arall wedi dod i law mewn da bryd, ond cawsant eu hanfon o leiaf un diwrnod ar ôl y dyddiad terfyn.

Targedau Arferion Gorau

O ran arferion gorau, mae gan y Tribiwnlys dri tharged i'w bodloni.

Cydnabod pob achos o fewn tri diwrnod gwaith

Cafodd 91% o'r holl geisiadau ac atgyfeiriadau eu cydnabod o fewn y targed ar gyfer arferion gorau.

Rhestru achosion nad ydynt dan gyfyngiad o fewn wyth wythnos

Cafodd 85% o'r holl achosion nad oeddent o dan gyfyngiad eu rhestru o fewn y targed ar gyfer arferion gorau.

Mae'n bosibl bod rhai achosion wedi'u rhestru un neu ddau o ddiwrnodau y tu hwnt i'r dyddiad terfyn. Gall hynny fod am sawl rheswm, gan gynnwys:

- Nid oedd aelod o'r tîm gofal a oedd yn ofynnol iddo fod yn bresennol yn y gwrandawriad ar gael yn ystod yr amserlen a nodwyd
- Nid oedd cynrychiolydd cyfreithiol y claf ar gael yn ystod yr amserlen a ddarparwyd
- Nid oedd aelodau o'r panel ar gael i glywed yr achos yn y gwrandawriad.

Rhestru achosion dan gyfyngiad o fewn 14 wythnos

Cafodd 96% o'r holl achosion o dan gyfyngiad eu rhestru o fewn y targed ar gyfer arferion gorau.

Mae'n bosibl bod rhai achosion wedi'u rhestru un neu ddau o ddiwrnodau y tu hwnt i'r dyddiad terfyn. Gall hynny fod am sawl rheswm, gan gynnwys:

- Nid oedd aelod o'r tîm gofal a oedd yn ofynnol iddo fod yn bresennol yn y gwrandawriad ar gael yn ystod yr amserlen a nodwyd
- Nid oedd cynrychiolydd cyfreithiol y claf ar gael yn ystod yr amserlen a ddarparwyd
- Nid oedd aelodau o'r panel ar gael i glywed yr achos yn y gwrandawriad.

Adran 3 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant yn 2019 – 2020

Gwariant yn 2019 – 2020

Cynnwys	Swm
Costau trafodion y tribiwnlys	£2,529,500
Costau hyfforddi'r aelodau	£60,840
CYFANSWM*	£2,590,340

Mae gwrandawiadau'r Tribiwnlys yn cael eu cynnal naill ai yn yr ysbytai lle mae'r cleifion yn cael eu cadw neu, ar gyfer cleifion cymunedol, mewn lleoliad sy'n agos at eu cartref. Felly mae holl aelodau'r Tribiwnlys yn teithio cryn dipyn i gyflawni eu dyletswyddau.